

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF  
PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 2 Awst 2018 am 5.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany CF40 2XX.

**Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol:-:-**

Y Cyngorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cyngorydd G Caple    Y Cyngorydd J Bonetto  
Y Cyngorydd P Jarman    Y Cyngorydd D Grehan  
Y Cyngorydd G Hughes    Y Cyngorydd J Williams  
Y Cyngorydd S Powell    Y Cyngorydd W Owen  
Y Cyngorydd R Yeo

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr S Gale, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio  
Mr C Jones, Rheolwr Gwasanaethau Datblygu  
Mr S Zeinali, Rheolwr Datblygu Priffyrdd a Mabwysiadu Priffyrdd  
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol – Cynllunio a'r Amgylchedd

**Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol**

Y Cyngorydd R Bevan

Y Cyngorydd H Fychan

**49 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol J. Harries.

**50 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chôd Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**51 DEDDF HAWLIAU DEDDF 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

## 52 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

## 53 COFNODION

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf, 2018 yn rhai cywir.

## 54 CAIS: 18/0618

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod a chais 18/0620 a nodir yng Nghofnod 55 isod:

- Mr Jon Wilks (Asiant)
- Mrs Louise Jones (Gwrthwynebydd)
- Mr Christopher Jones (Gwrthwynebydd)

Nododd y Pwyllgor nad oedd Mr George Summers (gwrthwynebydd) a Mr Andrew Thomas (gwrthwynebydd) a oedd wedi gofyn am annerch yr Aelodau ar y cais yn bresennol i wneud hynny.

Arferodd yr Asiant, Mr Jon Wilks, yr hawl i ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y gwrthwynebydd.

Siaradodd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol H. Fychan, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei phryderon ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig a chais 18/0620 a nodir yng Nghofnod 55 isod.

Amlinellodd y Rheolwr Rheoli Datblygu gynnwys dau lythyr 'hwyr' a ddaeth i law gan drigolion â phryderon a oedd wedi cael eiddo yng Nghoed y Lan wedi'u dyrannu iddyn nhw; a llythyr 'hwyr' a ddaeth i law gan gynrychiolydd yn Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent a oedd yn nodi gan nad yw'r eitem yn cynnwys y tŷ a'r bloc, nid oedd gwrthwynebiad i'r naill gais neu'r llall.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl ystyried y cynnig, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio.

(**Noder:** Roedd Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol P. Jarman a J. Williams am gofnodi eu bod nhw wedi pleidleisio yn erbyn cymeradwyo'r cais uchod)

## 55 CAIS: 18/0620

Cyflwynodd y Rheolwr Rheoli Datblygu'r cais i'r Pwyllgor a rhoddwyd gwybod i'r Aelodau nad oedd angen amod 6 bellach ond bod dau amod ychwanegol yn cael eu hargymell; y cyntaf oedd sicrhau nad oedd unrhyw waith dymchwel yn digwydd nes bod contract ar gyfer ail-adeiladu'r ysgol wedi'i adneuo a'i

gymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Yr ail amod oedd mynnu bod gwaith tirlunio dros dro yn digwydd. Eglurwyd mai'r rhesymau dros yr amodau ychwanegol oedd sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar yr Adeilad Rhestredig cyfagos a chymeriad a golwg yr ardal gadwraeth.

Ar ôl ystyried y cais, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio yn amodol ar y diwygiadau canlynol i'r Amodau:

- Cael gwared ar Amod 6 – Nid yw hyn yn angenrheidiol, fel y nodir yn y gynrychiolaeth 'hwyr' gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent.
- Amod ychwanegol – 'Ni fydd gwaith dymchwel yr adeilad yn dechrau nes bydd contract wedi'i osod ar gyfer adeiladu'r adeilad newydd a'i adneuo gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid cyflwyno manylion y contract i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a chytuno arno yn ysgrifenedig cyn i unrhyw waith dymchwel ddigwydd.'  
Rheswm – Sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar yr Adeilad Rhestredig cyfagos a chymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth.
- Amod tirwedd dros dro ychwanegol i sicrhau bod y safle'n cael ei gynnal a'i gadw, os oes unrhyw oedi rhwng gwaith dymchwel ac ailadeiladu.  
Rheswm – Sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar yr Adeilad Rhestredig cyfagos a chymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth.

Ac ail-rifo Amodau 1-6 yn 1-7.

(**Noder:** Roedd Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol P. Jarman a J. Williams am gofnodi eu bod nhw wedi pleidleisio yn erbyn cymeradwyo'r cais uchod)

## 56 CAIS: 18/0018/13

Cyflwynodd y Rheolwr Rheoli Datblygu y cais a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ddiwethaf ar 5 Gorffennaf 2018. Roedd yr Aelodau o blaid gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio gan eu bod o'r farn bod y fynedfa arfaethedig i'r datblygiad drwy Blake Street ddim yn foddhaol ar y ar sail diogelwch priffyrdd. Doedd y datblygiad ddim yn unol â pholisi NSA12 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf gan y byddai'n cael effaith andwyol ar y rhwydwaith priffyrdd a darpariaeth parcio ceir yn yr ardal gyfagos ac nid yw'n cyd-fynd â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (cyfeirir at hyn yng Nghofnod 27).

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad pellach, gan dynnu sylw at gryfderau a gwendidau posibl gwrthod cais yn groes i argymhelliad y swyddog. Yn dilyn trafodaeth a chan roi sylw dyladwy i amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn groes i argymhelliad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth – Materion Cynllunio gan fod yr Aelodau o'r farn:

- Mae ceir sy'n cael eu parcio ar ddwy ochr y stryd yn cyfyngu mynediad i'r safle arfaethedig trwy Blake Street i un lôn o draffig. Mae hyn ar draul diogelwch y briffordd a llif y traffig, ac yn groes i ofynion Polisi AW5 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf. Byddai hefyd yn groes i nodau ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac;

- Mae'r datblygiad arfaethedig wrth geisio caniatâd ar gyfer 29 annedd yn groes i'r cyfyngiadau a'r gofynion a nodir ym Mholisi NSA12 o Gynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf 2006-2021. Byddai hefyd yn groes i nodau ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

(**Noder:** Roedd Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol R. Yeo a G. Hughes am gofnodi eu bod nhw wedi pleidleisio yn erbyn cymeradwyo'r cais uchod)

**57 CAIS: 18/0475**

Cyflwynodd y Rheolwr Rheoli Datblygu y cais a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ddiwethaf ar 5 Gorffennaf 2018. Roedd yr Aelodau wedi gohirio penderfyniad ar y cais tan gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn y dyfodol i ganiatáu i swyddogion gyflwyno rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r posibilrwydd o gael gormod o siopau bwyd i fynd yng nghanol trefi Rhondda Cynon Taf, er mwyn rhoi eglurder i'r Aelodau ar le canol tref Treorci yn y darlun yma (Cyfeirir at hyn yng Nghofnod 29).

Bu trafodaeth hir ymysg yr Aelodau ynglŷn â'r adroddiad pellach, a **PHENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio.

**58 CAIS: 18/0482**

Cyflwynodd y Rheolwr Rheoli Datblygu y cais a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ddiwethaf ar 5 Gorffennaf 2018. Roedd yr Aelodau wedi gohirio penderfyniad ar y cais tan gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn y dyfodol i ganiatáu i swyddogion gyflwyno rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r posibilrwydd o gael gormod o siopau bwyd i fynd yng nghanol trefi Rhondda Cynon Taf, er mwyn rhoi eglurder i'r Aelodau ar le canol tref Treorci yn y darlun yma (Cyfeirir at hyn yng Nghofnod 30).

Bu trafodaeth hir ymysg yr Aelodau ynglŷn â'r adroddiad pellach, a **PHENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio.

**59 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 9 Gorffennaf 2018 ac 20 Gorffennaf 2018.

**60 MATERION BRYS**

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn cael ei gynnal ddydd lau 16 Awst, 2018 am 5pm.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.50 pm**

**Y Cynghorydd S Rees  
Cadeirydd.**